

Technegydd TG - CAC

Proffil Rôl / Disgrifiad Swydd

Teitl Rôl:

Technegydd TG (Tymor Sefydlog 6 Mis)

Yn Gyfrifol i:

Rheolwr Rhaglen – **Cronfa Adnoddau Cymunedol (CAC)**

Oriau:

24 awr yr wythnos (Tymor Sefydlog 6 Mis)

Dyddiad Dechrau l'w Gadarnhau

***Noder os gwelwch yn dda: gan mai swydd dros dro yw hon ar hyn o bryd, byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau llawrydd a rhannu swydd.*

Cyflog:

£24,491 pro rata y flwyddyn

Pwrpas Cynradd:

Bydd y Prosiect Diwydiannau Creadigol yn galluogi partneriaid lleol a rhanbarthol i gydweithio i sefydlu CITP ar gyfer trigolion Merthyr Tudful. Bydd sefydliadau celfyddydol yn cydweithio gyda phrifysgolion, colegau, ysgolion a phobl greadigol i dreialu ffordd newydd o weithio ar draws ffiniau. Nod y prosiect yw datblygu mentrau newydd trwy eu cefnogi gyda chyfleoedd hyfforddi a dysgu, yn ogystal â gofod i hwyluso'r broses hon.

Bydd ein Technegydd TG yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth eithriadol i'w cwsmeriaid Lles@Merthyr mewnol a'n sefydliadau partner ym mhob maes o wasanaethau TG, gan sicrhau'r perfformiad gorau posibl o'n systemau cyfrifiadurol a'r offer technolegol sy'n gysylltiedig â phrosiect CAC, i sicrhau effeithlonrwydd ym mhob agwedd ar gyflawniad y prosiect. Bydd y Technegydd TG yn gyfrifol hefyd am ddarparu arbenigedd enghreifftiol ym mhob maes TG sy'n galluogi cyflwyno rhaglen o ddiwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yn llwyddiannus, fydd hefyd yn cynnig y cyfle i ddatblygu perthnasoedd parhaol gyda'n sefydliadau partner.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o ddatrys problemau system, rhaglennu cronfeydd data a gosod meddalwedd. Byddent hefyd yn hyfedr wrth weithio ochr-yn-ochr â chwsmeriaid mewnol a phartneriaid allanol ar bob lefel i nodi anghenion technegol, gan roi atebion TG ar waith i ddatrys problemau wrth iddynt godi. Bydd gallu amlwg gan y Technegydd TG hefyd i gynnig argymhellion cadarn ar feddalwedd a chaledwedd addas sy'n cwrdd ag anghenion y defnyddiwr TG - trwy rinwedd eu gwybodaeth gyfredol o ddatblygiadau technolegol sydd ar gael - er mwyn gwella ansawdd y rhaglen weithgaredd..

Cyfrifoldebau Arbenigol:

(paramedrau eang)

1. I gynorthwyo'r Technegwyr Theatr ym mhob mater sy'n ymwneud â TG;
2. I ganfod a datrys trafferthion technegol wrth iddynt godi;
3. I ymateb i bob ymholiad/ymgais technegol er mwyn cynnig atebion TG cyn gynted â goda unrhyw drafferthion technegol;
4. I gynnal a chadw rhwydweithiau'r cwmni, gan sicrhau perfformiad esmwyth systemau cyfrifiadurol;
5. Cydweithio â'n darparwyr gwasanaeth TG o fewn yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau darpariaeth gyson o'n holl wasanaethau TG;
6. Sefydlu a ffurfweddu offer newydd ar gyfer **Lles@Merthyr** a'n sefydliadau partner drwy'r prosiect CAC;
7. I hyfforddi defnyddwyr TG ac offer technegol ar systemau newydd trwy berfformio arddangosiadau technegol ar weithdrefnau gweithredu;
8. Cydgyssylltu â chwsmeriaid, cydweithwyr mewnol a sefydliadau partner sy'n ceisio cymorth technegol i gynnig datrysiadau dros y ffôn, drwy e-bost ac wyneb-yn-wyneb;
9. I berfformio gwaith cynnal a chadw rheolaidd o systemau cyfrifiadurol/rhwydwaith;
10. Cynnal profion diagnostig ar y cyd â darparwyr gwasanaethau TG o fewn yr Awdurdod

Lleol, i nodi a datrys diffygion mewn systemau technolegol;

11. Cadw cofnodion cywir o broblemau cwsmeriaid, cydweithwyr mewnol a Sefydliadau Partner a'r atebion a argymhellwyd/gweithredwyd, er mwyn gallu rheoli problemau'n fwy effeithlon pe bai materion tebyg yn codi eto yn ystod y prosiect;
12. Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau offer wrth osod neu wneud atgyweiriadau i'r system, gan sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir yn cydymffurfio â CLG ein darparwr gwasanaeth TG presennol;
13. Cynnal profion/gwerthusiad rheolaidd o CAIs a thechnolegau newydd cyn eu rhyddhau;
14. Cydweithio â'r rheolwr rhaglen, ein sefydliadau partner ac arbenigwyr technoleg y CLG i ddatblygu a gweithredu strategaeth cymorth TG ar gyfer y prosiect;
15. Monitro offer a defnydd CAIs er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl;
16. Cefnogi dyluniad a chynnal cynnwys gwe ar gyfer Lles@Merthyr, prosiect CAC a sefydliadau partner; a
17. Cydgysylltu â darparwyr gwasanaeth TG Lles@Merthyr i sicrhau bod offer TG, argraffwyr, terfynellau ac ati yn cael eu prynu a'u gosod yn ddiogel, gan sicrhau bod Lles@Merthyr yn parhau i gydymffurfio â'n CLG.

Cyfrifoldebau Cyffredinol:

(paramedrau eang)

1. Cyfeirio cwsmeriaid mewnol a sefydliadau partner at yr aelod priodol o dîm CAC i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu datrys yn effeithiol, fel y gellir ymateb iddynt mewn modd mor amserol â phosib;
2. Cynnal apwyntiadau dilynol ar eu cwsmeriaid (h.y. cydweithwyr mewnol a sefydliadau partner) i gael adborth defnyddiol, a fydd yn eu cynorthwyo i wneud addasiadau a gwelliannau addas i'r gwasanaeth drwy gydol y prosiect;
3. Ymateb yn gadarnhaol i staff, cwmnïau sy'n ymweld, a sefydliadau partner;
4. Cefnogi'r prosiect drwyddo draw drwy hyrwyddo'r prosiect, ei allbynnau a'n gwasanaethau;
5. Gweithio ar y cyd â'r rheolwr rhaglen, sefydliadau partneriaeth a thîm prosiect cyfan CAC er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu i'n sefydliadau partner a phob cwmni sy'n ymweld;
6. Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau o bryd i'w gilydd mewn perthynas â pholisïau Cyfleoedd Cyfartal ac Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Gall hyn gynnwys darparu cymorth gyda gweithdrefnau gwacáu neu chwiliadau adeiladau os bydd argyfwng yn unrhyw un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth;
7. Sicrhau bod y gwaith a ymgwymerir yn ddiogel bob amser, a bod gweithdrefnau gweithio diogel, asesiadau risg a pholisïau iechyd a diogelwch Lles@Merthyr yn cael eu dilyn bob amser gan weithwyr a chwmnïau sy'n ymweld;
8. Bod yn atebol ym mhob agwedd ar eu gwaith;
9. Bod yn aelod gweithgar a chefnogol o'r tîm, gan gyfrannu mewn modd adeiladol a thrin pob cwsmer a staff â thegwch a chwarteisi; a,
10. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol gan y rheolwr rhaglen neu'r uwch dîm rheoli.

Mesuriadau Llwyddiant:

- Lefelau Gwasanaethau Cwsmer;
- Adborth positif gan Sefydliadau Partner a chydweithwyr;
- Cynnydd yn y nifer o sefydliadau sy'n dymuno bod yn rhan o'r prosiect CAC;
- Adborth positif gan Aelodau Tîm;
- Adborth/bodddhad staff a chwsmeriaid; a,
- Mekanweithiau adborth mewnol.

Gosoda'r proffil rôl yma brif ddyletswyddau a pharamedrau'r swydd ar y dyddiad y'i lluniwyd. Gall y dyletswyddau hynny amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb y disgwyliar. Bydd dyletswyddau ac anghenion eraill, felly, yn gysylltiedig â'ch rôl ac o hynny, fel amod o'ch cyflogaeth efallai bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau amrywiol eraill yn ôl gofyn rhesymol. Mae amrywiaethau tebyg yn ddigwyddiad cyffredin a methu, ar eu pennau eu hunain, â chyfiawnhau ail-ystyriaeth o'r swydd.

Technegydd TG - CAC

Beth ry'n ni'n edrych amdano (Manyleb Person)

Wrth baratoi eich cais ysgrifenedig, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y criteria isod, un ai mewn sefyllfa gwaith neu sefyllfa bersonol. Efallai y dymunwch ddefnyddio'r model STAR. Esboniwch y Sefyllfa'n fras, y Tasgau a'r Gweithgareddau (Actions) roedd angen i chi eu cymryd, a'r Canlyniadau (Results) i chi, y cwsmer a'r sefydliad.

A. Gwybodaeth a Phrofiad

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|--------------|
| 1. | O leiaf 2 flynedd o brofiad proffesiynol mewn rôl debyg | Hanfodol | Cais |
| 2. | Profiad o ddatrys problemau systemau | Hanfodol | Cais |
| 3. | Profiad o weithio gydag amrywiaeth o wahanol gwsmeriaid, trwy ddulliau amrywiol, er mwyn darparu atebion i broblemau technegol | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 4. | Profiad o gynnal profion diagnostig a datrys problemau i nodi problemau defnyddwyr TG | Hanfodol | Cais |
| 5. | Profiad o roi gweithdrefnau technegol ar waith yn effeithiol wrth fynd i'r afael yn gyflym â phroblemau cwsmeriaid, i leihau amhariadau ar gynhyrchiant a rhediad esmwyth y prosiect | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 6. | Profiad o weithredu fel cyfrwng rhwng darparwyr gwasanaethau TG a defnyddwyr gwasanaethau TG | Hanfodol | Cais |
| 7. | Profiad o baratoi a chyflwyno adroddiadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Rheolwr Rhaglenni a'r Tîm Rheoli ar weithrediadau cymorth TG trwy gydol y prosiect | Hanfodol | Cais |
| 8. | Profiad o weithredu a gweithio gydag offer megis byrddau clyfar, dyfeisiau storio allanol, offer diagnostig cyfrifiadurol, argraffwyr, offer technegol a.y.y.b. | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 9. | Profiad o ddylunio a chynnal CAIs/cynnwys tudalennau gwe ar gyfer cwsmeriaid mewnol a sefydliadau partner | Hanfodol | Cais/Asesiad |

B. Sgiliau a Gallu

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|--------------|
| 1. | Medrus mewn rhaglennu cronfa ddata a gosod meddalwedd | Hanfodol | Cais |
| 2. | Y gallu i roi gwybodaeth gywir am gynhyrchion a gwasanaethau TG | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 3. | Y gallu i asesu ffurfweddiadau caledwedd/meddalwedd yn rheolaidd i bennu'r angen am newid trwy gydol y prosiect | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 4. | Y gallu i nodi, adeiladu a chynnal perthnasoedd â chwsmeriaid ac aelodau tîm, yn ogystal ag addysgu defnyddwyr TG am weithdrefnau ar gyfer datrys neu atal problemau rhag digwydd eto | Hanfodol | Asesiad |
| 5. | Y gallu i egluro a darparu atebion TG i ddefnyddwyr gwasanaethau TG mewn termau dealladwy, annhechnegol | Hanfodol | Asesiad |
| 6. | Y gallu i gynig argymhellion i gwsmeriaid mewnol a sefydliadau partner sy'n dymuno prynu offer newydd neu amnewid offer presennol | Hanfodol | Asesiad |
| 7. | Y gallu i ymateb i ymholiadau am faterion caledwedd a meddalwedd | Hanfodol | Asesiad |
| 8. | Y gallu i gyflawni gwaith cynnal-a-chadw cyson ar systemau cyfrifiadurol i sicrhau gweithrediadau effeithlon | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 9. | Y gallu i atgyweirio neu amnewid cydrannau diffygiol o system gyfrifiadurol/rhwydwaith | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 10. | Y gallu i feddwl yn greadigol a dod o hyd i atebion i broblemau trwy gymryd agwedd resymegol at dasgau, meddwl ar eu traed a gwneud penderfyniadau prydlon | Hanfodol | Cais |
| 11. | Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol i sicrhau bod terfynau amser yn | Hanfodol | Cais/Asesiad |

| | | | |
|-----|---|----------|---------|
| | cael eu bodloni, gyda'r gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith heb oruchwyliaeth agos | | |
| 12. | Uniondeb personol ac ymrwymiad i gynnal safonau proffesiynol uchel; yn ymddiriedus, yn onest ac yn agored, gyda'r gallu i berchnogi problemau; Hunanysgogol | Hanfodol | Cais |
| 13. | Sgiliau rhyngpersonol a gweithio mewn tîm da, a'r gallu i weithio gydag adrannau eraill i sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn esmwyth ac ar amser | Hanfodol | Asesiad |
| 14. | Sgiliau rheoli amser effeithiol | Hanfodol | Asesiad |
| 15. | Y gallu i adnabod a chynnig gwelliannau sefydliadol | Dymunol | Cais |

C. Rhinweddau Personol

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|--------------|
| 1. | Gweithio'n gadarnhaol ac yn gynhwysol gyda chydweithwyr, partneriaid a chwsmeriaid er mwyn sicrhau na fydd Lles@Merthyr yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail oedran, rhywioldeb, crefydd neu gred, hil, rhyw neu anabledd. | Hanfodol | Cais |
| 2. | Chwaraewr tîm, sy'n ymroddedig i weithio ar draws timau gan ddangos gonestrwydd | Hanfodol | Asesiad |
| 3. | Wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau oll | Hanfodol | Cais/Asesiad |
| 4. | Agwedd gadarnhaol 'gall-wneud', cyfeillgar a hyblyg at bob cwsmer a Sefydliad Partner, gyda'r gallu i weithio dan bwysau | Hanfodol | Cais |
| 5. | Sgiliau cyfathrebu da | Hanfodol | Cais |
| 6. | Yn malio am y rôl a'r tasgau yr ymgymerir â hwy, gyda pharodrwydd i gynnal holl safonau gwasanaeth a pholisïau Lles@Merthyr a'u hyrwyddo'n weithredol | Hanfodol | Cais |
| 7. | Yn dangos ymddiriedaeth, didwylledd a pharch wrth ddelio â phobl | Hanfodol | Asesiad |
| 9. | Yn dangos balchder yn eu gwaith | Hanfodol | Asesiad |
| 10. | Yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd | Hanfodol | Asesiad |

Ch. Anghenion Eraill

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|----------|
| 1. | Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol personol, chwilio am gyfleoedd hyfforddi a datblygu ac yn barod i fynyachu rhaglenni hyfforddi, gweithdai a seminarau pan ofynnir iddynt wneud hynny, er mwyn bod yn ymwybodol o ddatblygiadau o fewn y diwydiant TG | Hanfodol | Cais |
| 2. | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel | Hanfodol | Cais |

D. Cymwysterau

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|----------|
| 1. | Cymhwyster priodol mewn cyfrifiadureg neu beirianeg dechnegol (h.y. gradd mewn cyfrifiadureg, rhwydweithio neu raglennu, ac ati) | Hanfodol | Cais |

Dd. Yr Iaith Gymraeg

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|----------|
| 1. | Y gallu i siarad Gymraeg | Dymunol | Cais |
| 2. | Y gallu i wrando i a deall sgysiau yn y Gymraeg | Dymunol | Cais |
| 3. | Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg | Dymunol | Cais |
| 4. | Y gallu i ddarllen y Gymraeg | Dymunol | Cais |